

PENNOD 8: Y WERIN GYFFREDIN

Eseia 29. 19

*Caiiff y rhai llariaidd eto lawenychu yn yr Arglwydd,
a'r tlotaf o bobl ymffrostio yn Sanct Israel.*

Mae'r gwesty'n llawn a'r dref yn orlawn ond islaw'r dref y mae yna ddigonedd o le. Ond bugeiliaid sydd yno a'u math hwy ddim yn cyfrif. Mae pobl y dref yn siŵr o hynny a'r bugeiliaid hefyd yn gwybod ei fod yn ffaith. I lawr yno mae'r bugeiliaid yn "gwarchod eu praidd liw nos." Wrth gwrs, nid y bugeiliaid biau'r praidd ond pobl gyfoethocach y dref a'r pentrefi cyfagos. Gofalu am y praidd yw cyfrifoldeb y bugeiliaid a chadw'r defaid yn ddiogel gan ymateb i bobl sy'n amharod eu hunain i wneud y gwaith dirmygedig. Pwy arall sydd am gymysgu â bugeiliaid. Nid ydynt na pharchus na derbyniol mewn cymdeithas.

Canlyniad eu gwaith yw na fedrant gadw holl reolau bach crefydd, fel golchi dwylo gyda rheoleidd-dra defodol. Oherwydd hynny cawsant eu diarddel o gylchoedd crefyddol a chymdeithas barchus. Sul bobl yw'r bugeiliaid hyn? Beth a wyddom am gymeriad a phersonoliaeth pob un? A ydynt yn ddynion ffein neu'n ddihirod drwg? Ni wyddom ni. Os yna fymrym o ffydd yn eu plith? A ydynt yn gwybod mai'r Arglwydd yw eu bugail a bod ganddo lawer mwy o ddiddordeb ynddynt a chydymdeimlad na neb o'i weision pwysig? Ni ddywedir wrthym ond byddent hwythau a phawb arall yn ei chael hi'n anodd i gredu, canys y rhai'n yw tlodion y tir.

Yn ôl William Barclay, cafodd preiddiau y Deml eu cadw yn ardal Bethlehem, gan ofyn a'i bugeiliaid arbennig oedd y dynion hyn yn gofalu am ddefaid arbennig. "Syniad hyfryd," meddai. Oni phwysleisia Luc mai bugeiliaid cyffredin iawn yw'r rhai yn yr hanes, cynrychiolwyr holl dlodion y ddaear?

Yn sydyn, wrth iddynt feindio eu busnes eu hunain, daw ymwelydd atynt gyda neges – Newyddion Da i'r holl fyd! A hwy yw'r cyntaf o bawb i glywed y Newyddion Da hyn i dlodion. Y mae yna fachgen newydd ei eni, ef yw'r Gwaredwr, Meseia (Crist mewn Groeg), ac Arglwydd. Ni chyfeiria Iddewon byth at y Meseia fel Arglwydd; Duw yn unig sy'n Arglwydd. "Meseia'r Arglwydd" yw eu hymadrodd; felly y cyfeiria Luc at Simeon "oedd yn disgwyl am ddi-ddanwch Israel..... Yr oedd wedi cael datguddiad gan yr Ysbryd Glân na welai farwolaeth cyn gweld Meseia'r Arglwydd."³⁷

Daw'r Meseia i bobl sy'n hiraethu am ryddhad – i Iddewon sydd wedi hen alaru ar eu concwerwyr ac ar y pechodau sydd wedi achosi eu cwmp. Newyddion yw hefyd i Genedl-ddynion sy'n chwilio am iachawdwriaeth. I lawer yn yr ymherodraeth, bodau cwbl annigonnol oedd duwiau Groeg a

Rhufain, a rhy debyg i fodau dynol. Roedd rhai cenedl-ddynion wedi troi at Isis a duwiau'r Aifft, ac eraill at Asclepius, duw-iachau Asia Leiaf, neu Mithra, tarw-dduw y dwyrain canol, fu'n boblogaidd iawn ymhlith milwyr Rhufain. Ond gwnaeth llawer addoli Cesar, y duw-frenin, pensaer Pax Romana y byd cyfan a ffyniant Rhufain ei hun. Ond ni foddlonwyd gwir chwant am rywbeth real gan yr un o'r duwiau hyn. Denwyd rhai hefyd at Yahwew'r Iddewon, duw glân a moesol. Ond nid at bobl fawr y genedl na Rhufain y rhoddwyd y Newyddion Da ond i fugeiliaid, "neb" yng ngolwg y naill gymdeithas na'r llall. Y bugeiliaid sy'n gweld y nefoedd wedi eu goleuo â gogoniant Duw; hwythau syn clywed am eni'r plentyn, y Gwardedwr, sy'n Feseia'r Arglwydd. Yn aml galwyd duwiau paganaidd yn waredwr, ond fel y siarada Eseia am Dduw ei hun: "Oherwydd, myfi, yr Arglwydd dy Dduw. Sanct Israel yw dy Waredydd."³⁸ Defnyddia'r gair Gwardedwr i ddisgrifio Iesu yn unig, tra na cheir y gair o gwbl yn efengylau Marc a Mathew. Dod y mae'r Gwardedwr at bobl sy'n hiraethu am fod yn rhydd; i bawb ar y pryd, y bobl sy'n cyfrif. Ond dyma'r bugeiliaid yn clywed bod y rhyddid hwn iddynt hwy yn ogystal.. Tywelltir tangnefedd Duw ar fodau dynol. Nes ymlaen, wrth iddo sôn am fedydd Iesu,³⁹ cyflwynna darlun Luc Iesu, nid yn unig fel Mab Duw ond hefyd fel y bod dynol cynrychioliadol . Dywedir wrth y bugeiliaid na all gwir heddwch ddod i'r byd hyd nes y sylfaenir Teyrnas Dduw. Gwna'r angel addewid iddynt: "dyma'r arwydd i chwi, cewch hyd i'r un bach wedi ei rwymo mewn dillad baban ac yn gorwedd mewn preseb". Hon yw trydedd arwydd Luc, yn dilyn ar fudandod Sachareias a beichiogaeth Elisabeth. Ar ddiwedd neges yr angel, clyw'r bugeiliaid gerddoriaeth. Fel rheol, adeg geni plentyn, byddai'r cerddorion lleol yn hwyr ganu i'r fam a'r plentyn, ond ni cheir unrhyw gerddor wrth ddrws y stabal. Yn lle hynny, dyma gôr angylaid yn ymddangos, "dyrfa o'r llu nefol, golygfa adleisio o weledigaeth Eseia yn y Deml, lle molir Arglwydd y Llueodd gan seraffiaid a llais Duw yn dweud wrth y proffwyd i fynd a dweud ar ei ran."⁴⁰

Un o hoff enwau'r Hen Destament ar Dduw yw "Arglwydd y Llueodd,"⁴¹ fel mynegiant o'i fawrhydi a'i rym goruchaf. Gair a chefnidir milwrol yw "llueodd," am fyddin.⁴² Yna cafodd yr ystyr ei ehangu i awgrymu unrhyw fath ar wasanaeth caled.⁴³ Cafodd ei ddefnyddio nifer o weithiau yn Llyfr Numeri i ddisgrifio gwasanaeth y Lefiaid yn y Deml.⁴⁴ Roedd hen ddoethion y dwyrain yn hoff o weld y sêr fel llun arfog nefolaidd yn adlewyrchu gogoniant eu duw mawr, yn arbennig yn niwylliant Assyria a Babylon, gafodd ddylanwad mawr ar Israel. Yn yr Hen Destament gwelwyd y sêr weithiau yn adlewyrchu gogoniant Arglwydd y Llueodd. Daw rhybudd yn aml yn yr Hen Destament yn erbyn syniadau tebyg am y sêr, gan ddechrau gyda, "Gwylia hefyd na fyddi'n codi dy olwg i'r nefoedd ac edrych ar yr haul, y lleuad neu'r sêr, a chael dy ddenu i ymgrymu iddynt a'u haddoli..."⁴⁵ O syniadau Babylon o gynulliad nefol y daeth y darlun Iddewig o Dduw yn llywyddu ar ei gyngor nefol.

Serch hynny, yn yr Hen Destament sonnir yn aml am y sêr yn adlewyrchu gogoniant Arglwydd y Lluoedd, megis yn Salm 19: “y mae’r nefoedd yn adrodd gogoniant Duw, a’r ffurfafen yn mynegi gwaith ei ddwylo.” Dywedodd y proffwyd wrth y brenin Jehosaffat, “gwelais yr Arglwydd yn eistedd ar ei orsedd, gyda holl lu’r nef yn sefyll ar y dde ac ar y chwith iddo.”⁴⁶ Weithiau daw’r ddau ddarlun, am y sêr fel sêr ac amdanynt fel gweision Duw yn un, fel yn Job 38. 4, 7: “Ble’r oeddet ti pan osodais i sylfaen i’r ddaear?... Ble’r oeddit ti pan oedd sêr y bore i gyd i lawenhau a’r holl angylion yn gorfoleddu?”

Fe gân y côr nefol i’r bugeiliaid yn awr gân i ddathlu’r greadigaeth newydd sy’n dod i fodolaeth trwy geni’r plentyn hwn. Datganiad messeianaidd a geir ganddynt: “Gogoniant yn y goruchaf i Dduw, ac ar y ddaear tangnefedd ymhlith y rhai sydd wrth ei fodd.” Caiff y geiriau agoriadol eu hail-adrodd ar Sul y Blodau wrth i’r Gwardwr/Meseia ddod i fewn i Jerwsalem ar ei ffordd i’r Groes.⁴⁷ Cyfieitha James Moffatt yr ail gymal fel “dynion sy’n rhyngu bodd i Dduw.”⁴⁸ Pwy sy’n clywed yr addewid fawr hon? Nid yr Sadwceaid aristocrataidd, nid y Phariseaid hunan-gyfiawn, dosbarth canol. Neb ond y bugeiliaid hyn sy’n clywed am rhodd Duw o dangnefedd, cynrychiolwyr a rhadredegwyr y werin-bobl fydd yn ei glywed nes ymlaen.

Wrth i’r weledigaeth ddod i ben, mae’r bugeiliaid yn gweithredu ar unwaith ar yr hyn a glywant a gweld, gan rhuthro i fyny’r rhiw at Fethlehem. Mentro y maent wrth ymadael â’u praidd ond rhaid iddynt ddod o hyd i Fugail eu bywydau. Dyma hwy’n dod at y fan, at yr olygfa ryfeddaf: dim palas, dim tywysogion, dim milwyr! Y cyfan sydd yno yw baban mewn preseb, ei fam ddi-briod, ac hen ddyn, gyda’r anifeiliaid. Oni ddywedodd Eseia’r proffwyd, “Y mae’r ych yn adnabod y sawl a’i piau, a’r asyn breseb ei berchennog, ond nid yw Israel yn adnabod, ac nid yw fy mhobl yn deall.”⁴⁹ Mae’n bosibl nad oedd y bugeiliaid tlawd yma’n gyfarwydd â’r geiriau hyn ond yr hyn sy’n amlwg iddynt yw pa mor debyg yw’r babi a’r pâr sydd gyda’f ef iddynt hwy a’u byd. Yn awr y gwelant gyda’u llygaid eu hunain yr hyn y clywsant amdano – bod Duw wedi dod i’w plith. Adwaenant Dduw yn eu byd eu hunain. Daw atynt, yn caru, maddau, gofalu, iachau, cymodi, gwaredu.

Rhaid i’r bugeiliaid ddychwelyd at y praidd, ond mynd y maent gan fynd â’u cynnwrf gyda hwy. Yn awr mae’r ogof yn dawel unwaith eto. Eistedda Mair gyda’i meddyliau, yn eu trysori yn ei chalon a chan bwysu arwyddocâd yr hyn sy’n digwydd. Dioddefodd warth, tristwch a phoen ond yn awr mae gwrthrych y gwarth yn gyfrwng gras. Er nad yw’n deall beth sy’n digwydd, mae’n derbyn ac ufuddhau. Hi yw cludwraig-Crist, cynddelw y dynoliaeth newydd. Ni cheir unrhyw sôn am Joseff yn hanes y bugeiliaid ond rhaid ei fod yno neu allan ar neges. Cafodd ei frifo’n ddwfn gan feichiogaeth Mair. I ddechrau meddyliodd i’w ymddiriedaeth gael ei gamdrin. Dioddefodd ei enw da wrth i gymdogion laschwerthyn ar ben hen ffwl. Ond mae gan ras Duw neges i’w friw ac i’w ffydd.

Y mae pob sialens o eiddo Duw yn cynnwys cymorth Duw. Mab y Goruchaf yw'r bachgen bach, a Joseff wedi ei fabwysiadu i fod yn dad iddo. I fewn i ddryswch, poen a thristwch Joseff daw tangnefedd, anrhydedd, llawenydd a phwrpas i fywyd, wrth iddo dderbyn statws, galluogwr Duw.

Wedi gweld, dyma'r bugeiliaid yn dychwelyd at eu bywyd pob-dydd, a gofalu am ddefaid ond roedd popeth wedi newid. Bu iddynt weld cyflawni addewidion Duw, rhywbeth na freuddwydiasant erioed byddai'n eu cynnwys hwy, a newidwyd eu bywydau am byth. Rhaid iddynt aros yn fugeiliaid tlawd a dirmygedig ond, yn y stabal, cawsant yr hunan-werth ac urddas sy'n rhodd gan Dduw i'w blant. Er na newidiwyd eu gwaith a'u statws cymdeithasol, ni bydd gofalu am ddefaid byth yr un mwy. Canys cawsant gwrdd ag Oen Duw. Wrth iddynt ddychwelyd at y praidd rhaid rhannu'r stori gyda phawb. Gan y tlodion mae Newyddion Da i dldion. Disgwylir i'r rhai sy'n derbyn yr Efengyl fod yn efengylwyr.

Arglwydd, rhaid dy fod yn caru pobl gyffredin gan dy fod wedi creu cymaint ohonynt. Boed i'r Efengyl gael ei byw a'i rhannu mewn gostyngeddwrwydd a gwirionedd. Fel y daw pawb i'th weld yn bresennol ac wrth dy waith yn ein bywydau, bob un; fel y llenwir y ddaear a gogoniant yr Arglwydd, fel mae'r dyfroedd yn llenwi'r môr.

Cwestiynau i'w hystyried neu i'w trafod

Ymatebodd y bugeiliaid i'r neges o Newyddion Da trwy fynd i'r stabal. Sut atebwn ni?

Clywodd y bugeiliaid y gân fawr yn cyhoeddi tangnefedd ar y ddaear. Sut ydym i gymhwyso'r gân i'n byd ni heddiw?